

Diweddariad Data Cymru – PCYC Mehefin 2020

Diweddariad COVID-19

Yn yr un modd â'r mwyafrif o'n cydweithwyr yn y sector cyhoeddus, mae swyddfeydd Data Cymru ar gau ers ychydig cyn cyflwyniad y cyfyngiadau symud yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn gweithio o bell ac yn rhoi cymorth i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Llywodraeth Cymru ac eraill i helpu i ddeall sut mae COVID-19 yn effeithio ar awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus ehangach. I lawer ohonom, mae'r ychydig fisoedd diwethaf wedi bod ymhlith y prysuraf rydym ni wedi eu gweld yn ein hamser yn Data Cymru.

Mae enghreifftiau o'r gwaith rydym wedi ymwneud ag ef yn ystod y pandemig yn cynnwys:

- Paratoi crynodeb rheolaidd (dyddiol ar y dechrau) o effaith y pandemig ar wasanaethau awdurdodau lleol (a gylchredir i Arweinwyr).
- Estyn ymarferoldeb Dewis Cymru i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am gartrefi gofal (e.e. statws o ran gwelyau), gan gynnwys datblygu adroddiadau/dangosfyrddau cenedlaethol.
- Cefnogi'r gwaith profi gweithlu gofal cymdeithasol.
- Cynnal casgliad data dyddiol (seiliedig ar y we) am y ddarpariaeth mewn lleoliadau addysgol (hybiau). Mae hyn yn cael ei droglwyddo i Lywodraeth Cymru yn ddyddiol a'i gyhoeddi ar ffurf gryno.
- Casglu data am drefniadau a niferoedd Prydau Ysgol am Ddim.
- Cynnal casgliad gwybodaeth dyddiol am niferoedd a gwerth grantiau busnes bach sy'n cael eu prosesu gan awdurdodau.
- Cefnogi CLILC a Llywodraeth Cymru wrth gasglu a dadansoddi data am effaith ariannol debygol y pandemig ar gyllid awdurdodau.
- Darparu crynodeb i Gymru o ffigurau marwolaethau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol – <http://www.data.cymru/covid19/marwolaethau>.

Erbyn hyn rydym yn dechrau troi ein sylw at ba gefnogaeth y bydd ei hangen ar awdurdodau lleol wrth i ni ddod allan o'r pandemig, yn enwedig mewn perthynas â data a gwybodaeth i ddeall yr effaith barhaus a chynnydd yr ymadfer.

Rydym yn dal i fod ar gael hefyd i gefnogi awdurdodau lleol a phartneriaid gyda'u holl anghenion data eraill, fel ag arfer, felly cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau!

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag Andrew Stephens ar 029 2090 9500 neu e-bostiwch ymholiadau@data.cymru

Effaith COVID-19 ar ddata ac ystadegau

Erbyn hyn mae'n amlwg y bydd COVID-19, o safbwynt ystadegol, yn cael effaith sylweddol ar y data a'r ystadegau rydym yn eu defnyddio bob dydd o fewn ein gwaith. Mae rhai dangosyddion wedi cael eu hatal, mae eraill wedi gweld newid yn eu methodoleg (wrth edrych ar arholiadau ysgol a phresenoldeb er enghraifft) a bydd effaith enfawr ar rai eraill (wrth i mi ysgrifennu'r diweddariad hwn, mae Cymru newydd weld cynnydd seithplyg mewn ceisiadau am fudd-daliadau mewn un mis er enghraifft).

Mae Glyn Jones, Prif Ystadegydd, wedi [cyhoeddi arweiniad](#) ar y mater hwn. Mae Data Cymru yn datblygu arweiniad ychwanegol i ddefnyddwyr InfoBaseCymru ac mae ein hoffer ar-lein eraill yn rhoi

gwybodaeth a chyingor pellach. Caiff hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan ac ar offer perthnasol, felly cadwch lygad ar y lleoliadau hyn a'n porthiannau cyfryngau cymdeithasol am hysbysiau.

Llefydd Llewyrchus Cymru – diweddariad 2020

Ym mis Mawrth cyhoeddodd ni ddiweddariad 2020 i Lefydd Llewyrchus Cymru. Roedd hyn yn cyd-fynd â'r Ganolfan dros Lefydd Llewyrchus (Happy City gynt) yn cyhoeddi eu diweddariad hwythau am y Mynegai Lefydd Llewyrchus i Loegr. Byddwn yn darparu rhywfaint o ddadansoddiad a sylwebaeth yn hwyrach yn yr Haf ar gyfer defnyddwyr.

Mae diweddariad eleni yn cynnwys sawl dangosydd newydd, sy'n cael eu rhestru ar y [wefan](#).

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â [Duncan Mackenzie](#).

Diweddariad LARIA

Rydym wedi gweithio gyda LARIA, Cymdeithas Llywodraeth Leol a CACI i gynnig mynediad am ddim i awdurdodau lleol i ddata segmentiad cwsmeriaid CACI am gyfnod cyfyngedig i gefnogi eu dealltwriaeth o sut allai COVID-19 fod yn effeithio ar eu cymunedau. Mae rhagor o fanylion ar gael ar ein [wefan](#).

Mae Cynhadledd Haf LARIA wedi cael ei symud o'i dyddiad traddodiadol ym Mehefin i ddyddiad amodol 12-13 Hydref. Bydd penderfyniad terfynol ynghylch bwrw ymlaen gyda'r dyddiad hwn yn cael ei wneud cyn hir a bydd manylion yn cael eu cyhoeddi ar wefan LARIA.

Data Cymru yw'ch arweinydd yng Nghymru. Os ydych yn aelod o LARIA ac os oes gennych unrhyw gwestiynau am ymchwil neu hysbysrwydd, cysylltwch â [Duncan MacKenzie](#).